



Cyngor Bwrdeistref Sirol
MERTHYR TUDFUL
MERTHYR TYDFIL
County Borough Council

FFOCWS AR Y DYFODOL

Lles yn ein Cymuned

2017 - 2022



Cysylltu
Connect



Bod yn fywiog
Be active



Bod yn sylwgar
Take notice



Dal ati i ddysgu
Keep learning



Rhoi
Give

Cynnwys

1.	Gwneud Pethau Gwahanol.....	1
2.	Buddsoddi mewn Lles Pobl.....	2
3.	Geirfa.....	3
4.	Cyflwyniad.....	5
5.	Ariannu'r Cynllun.....	6
6.	Cynnwys Ein Cymunedau.....	7
7.	AmcanionLles.....	10
8.	Cyfraniad ein Hamcanion Lles at y Nodau Lles.....	14
9.	Amcan Dechrau Ganol: Mae plant a phobl ifanc yn cael y dechrau gorau ac yn meddu ar y sgiliau y mae eu hangen arnynt i fod yn ddysgwyr llwyddiannus ac yn unigolion hyderus	15
10.	Amcan Bywyd Gwaith: Mae pobl yn teimlo cefnogaeth i ddatblygu'r sgiliau priodol i ddiwallu anghenion busnesau sydd â seilwaith datblygu, diogel, gan wneud Merthyr Tudful yn gyrchfan ddeniadol.....	17
11.	Amcan Llesiant Amgylcheddol: Mae cymunedau'n diogelu, gwella a hyrwyddo ein hamgylchedd a chefn gwlad.....	20
12.	Amcan Byw yn Dda: Mae pobl yn cael eu galluogi i fyw'n annibynnol yn eu cymunedau, lle maent yn ddiogel ac yn mwynhau iechyd corfforol da a iechyd meddwl da	22
13.	Camau i helpu cyflawni'r saith nod lles cenedlaethol.....	24
14.	Cymryd rhan	31

Ffocws ar y Dyfyddol

1. Gwneud Pethau Gwahanol

- 1.1. Croeso i'n Cynllun Lles "Ffocws ar y Dyfodol: Lles yn ein Cymuned". Yn ein cynllun, nodwn yr hyn a ddisgwyliwn gan ein Cyngorwyr a'r hyn a ddisgwyliwn gan y Cyngor i gyflawni'n Hamcanion Lles. Fel y nodwyd y llynedd, lluniwyd hyn yn flaenoriaethau gwleidyddol a chysylltir Amcanion Lles Lleol â Chynllun Lles Cwm Taf.
- 1.2. Fel Cyngor, rydym wedi ymrwymo o hyd i gydweithio'n agos â'n cymunedau i adeiladu gwydnwch ar draws y Fwrdeistref Sirol a dod â phobl at ei gilydd. Fel yr Arweinydd, rwyf am ddefnyddio fy rôl i barhau i adeiladu cysylltiadau rhwng pobl a galluogi cymunedau i weithredu fel ffordd o wella lles.
- 1.3. Fel pob corff cyhoeddus, mae'r Cyngor yn wynebu pwysau cynyddol ynghyd â thoriadau difrifol mewn cyllid gan y Llywodraeth. Gall y ffordd yr ydym yn ymateb i'r heriau hyn fod yn gyfle i wneud pethau gwahanol. Bydd ysgogi ein hasedau o fewn unigolion a chymunedau, i ganolbwyntio ar yr hyn y mae pobl yn ei werthfawrogi fwyaf, yn hanfodol wrth nodi cyfleoedd i wneud pethau gwahanol.
- 1.4. Fel Cyngorwyr, byddwn yn parhau i arwain datblygiad cymunedol trwy ddod â phobl a chymunedau at ei gilydd. Byddwn yn defnyddio ein gwybodaeth, ein sgiliau a'n profiadau ein hunain i hyrwyddo cyfleoedd drwy gynnwys y gymuned i gyflawni newidiadau cadarnhaol a pharhaol.



Y Cyngorydd Kevin O'Neill

Arweinydd y Cyngor

"Rwyf am i'n Cyngorwyr fod allan yn ein cymunedau, gan weithio ochr yn ochr â'n haelodau cymunedol i wella Merthyr Tudful."

2. Buddsoddi mewn Lles Pobl

- 2.1. Ar ran Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, rwy'n falch o gyflwyno ein cynllun sydd wedi ei ddiweddarau "Ffocws ar y Dyfodol: Lles yn ein Cymuned". Mae'r cynllun hwn yn nodi'r hyn y byddwn yn ei wneud yn ein cymunedau i gyflawni'n Hamcanion Lles a'r modd y byddwn yn gweithio i wneud hyn.
- 2.2. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus gydweithio'n well gyda'i gilydd a chyda chymunedau trwy gynnwys a gweithredu ymagwedd gydweithredol. Mae hyn yn bwysicach fyth wrth i ni barhau i brofi gostyngiadau yn y gyllideb.
- 2.3. Rhaid inni sicrhau y bydd y penderfyniadau a gymerwn yn sicrhau gwelliannau parhaus yn lles diwylliannol, economaidd, amgylcheddol a chymdeithasol y bobl sy'n byw ac yn gweithio yn y Fwrdeistref Sirol heddiw ac yn y dyfodol. Er mwyn cyflawni hyn, byddaf yn gweithio i sicrhau bod y Cyngor yn gweithio'n wahanol trwy gymhwyso'r pum ffordd o weithio a nodir yn y Ddeddf.
- 2.4. Mae Arweinydd y Cyngor wedi amlinellu'r rôl y mae Cynghorwyr Lleol yn ei chwarae fel llysgenhadon yn y gymuned. Byddant yn helpu i alluogi pobl leol i drawsnewid eu cymuned a mynd i'r afael â'r materion y maent yn eu hwynebu trwy weithredu yn y gymuned.
- 2.5. Fel y nodais o'r blaen, mae Swyddogion y Cyngor wedi bod yn cydweithio â thrigolion i helpu datblygu dealltwriaeth sylfaenol o Les yn y Fwrdeistref Sirol. Mae hyn wedi helpu llunio'r Amcanion Lles yn ein cynllun. Mae wedi ein galluogi i ddeall yn well sut i wella lles yn ein cymunedau.



Gareth Chapman

Prif Weithredwr

" Helpwch fi i'ch helpu chi, wrth sicrhau bod y Cyngor a'i dîm o staff proffesiynol a chymhelledig yn gweithio gyda chi, cymunedau'r Fwrdeistref Sirol, i gyflawni'r Amcanion Lles a nodir yn y cynllun hwn."

3. Geirfa

Pum ffordd o weithio

Mae pum peth y mae angen i gyrff cyhoeddus eu hystyried i ddangos eu bod nhw'n gallu cyd weithio'n well, gan osgoi ailadrodd camgymeriadau o'r gorffennol a mynd i'r afael â rhai o'r heriau hirdymor yr ydym yn eu hwynebu. Y pum peth yw:

1 – Hir Dymor

Pwysigrwydd cydbwysu anghenion tymor byr a'r angen i ddiogelu'r gallu i ddiwallu anghenion hirdymor hefyd.

2 - Atal

Gall atal problemau rhag digwydd neu waethygu helpu cyrff cyhoeddus i ryddhau adnoddau ddiwallu eu Hamcanion Lles.

3 - Integreiddio

Ystyried sut y gall Amcanion Lles y Corff Cyhoeddus effeithio ar bob un o'r nodau lles, ar eu hamcanion eraill, neu ar amcanion cyrff cyhoeddus eraill.

4 - Cydweithredu

Gweithio mewn cydweithrediad ag unrhyw berson arall neu adrannau gwahanol a allai helpu 'r Corff Cyhoeddus i ddiwallu eu hamcanion lles.

5 - Ymrwymiad

Pwysigrwydd cynnwys pobl sydd â diddordeb i gyflawni Nodau Lles, a sicrhau bod y bobl hynny yn adlewyrchu amrywiaeth yr ardal y mae'r corff yn ei gwasanaethu.

Amcan Lles

Mae'r Amcanion Lles yn nodi'r hyn a ddylai ddigwydd yn lleol i helpu gwella lles pobl Merthyr Tudful a chyflawni'r Nodau Lles Cenedlaethol.

Nod Lles

Dengys y Saith Nod Lles y math o Gymru yr ydym am ei gweld. Gyda'i gilydd maent yn darparu gweledigaeth ar y cyd i gyrff cyhoeddus yng Nghymru weithio tuag ati.

Cynllun Ariannol Tymor Canolig

Cynllun i gydbwysu goblygiadau ariannol amcanion a pholisïau yn erbyn cyfyngiadau mewn adnoddau, sy'n darparu sail ariannol ar gyfer gwneud penderfyniadau, i sicrhau cynaliadwyedd ariannol dros y tymor canolig (pum mlynedd).

Camau i gyflawni'r Saith Nod Lles


Mae dyletswydd ar y Cyngor cymryd camau rhesymol ar ein siwrnai i gyflawni'r saith Nod Lles a'n Amcanion Lles. Mae'r arweiniad o Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yn nodi bod y camau hyn yn amrywio o newidiadau syml y gellir eu gwneud yn gyflym ac yn rhwydd i weithredoedd mwy uchelgeisiol, ac yn y pen draw i weithredoedd trawsnewidiol fydd yn arwain at y Gymru rydym ei hangen i Genedlaethau'r Dyfodol.

4. Cyflwyniad

- 4.1. O dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus yng Nghymru weithio mewn ffordd gynaliadwy i gyflawni'r weledigaeth gyffredin er mwyn gwella lles economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol Cymru. Felly, rhaid sicrhau wrth wneud penderfyniadau, ein bod yn ystyried yr effaith y gallent eu cael ar y bobl sy'n byw eu bywydau ym Merthyr Tudful yn awr ac yn y dyfodol.
- 4.2. Mae'r Ddeddf yn sefydlu Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol dros Gymru sydd a rôl i warchod budd cenedlaethau'r dyfodol yng Nghymru, ac i gefnogi'r gyrff cyhoeddus a restrir yn y Ddeddf i weithio tuag at gyflawni'r Nodau Lles.

Ein Cynllun, Ffocws ar y Dyfodol: Lles yn ein Cymuned

- 4.3. Yn ein Datganiad Lles, rydym yn gosod amrediad pob Amcan Lles ac yn amlinellu pam yr ydym o'r farn y bydd bodloni'r Amcan Lles yn gwneud y gorau o'n cyfraniad tuag at gyflawni'r saith Nod Lles.
- 4.4. Yn ein cynllun (Ffocws ar y Dyfodol: Lles yn ein Cymuned), nodwn sut yr ydym yn bwriadu cyflawni'r Amcanion Lles. Mae hyn yn cynnwys blaenoriaethau cysylltiedig, manylion cynlluniau a strategaethau allweddol a sut yr ariennir y cynllun.
- 4.5. Rydym yn adolygu ein cynllun bob blwyddyn (dyma'r drydedd flwyddyn a'r ail adolygiad) i sicrhau bod y blaenoriaethau allweddol, y cynlluniau a strategaethau allweddol yn parhau'n berthnasol ac yn cyd-fynd yn glir â'n hamcanion lles. Mae hyn yn dogfennu'r newidiadau a wnaed fel rhan o'r adolygiad hwn a'r rhesymeg dros y newidiadau. Yn ogystal, byddwn hefyd yn cyhoeddi Adroddiad Perfformiad Blynnyddol, a fydd yn gwerthuso'r cynnydd a wnaethom.
- 4.6. Isod, mae diagram syml i weld lle mae ein cynllun (Ffocws ar y Dyfodol: Lles yn ein Cymuned) yn sefyll mewn perthynas â'r gwaith rhanbarthol ar draws Cwm Taf ac o fewn y Cyngor.



5. **Ariannu'r Cynllun**

- 5.1. Mae Cynllun Ariannol Tymor Canolig y Cyngor (CATC) yn amlinellu dyraniad y cyllideb ar gyfer y flwyddyn gyfredol ac yn amcanu gofynion cyllideb yn y dyfodol. Mae ein CATC y dyfodol wedi'i nodi yn erbyn ein Hamcanion Lles.
- 5.2. Er mwyn alinio rheolaeth ariannol y Cyngor a'r Amcanion Lles, byddwn yn parhau i ailddiffinio blaenoriaethau ein gwasanaethau gan sicrhau bod adnoddau prin yn cael eu dyrannu i wasanaethau a flaenoriaethir fel y diffiniwyd gan Amcanion Lles.
- 5.3. Bydd y gwaith i flaenoriaethu gwasanaethau yn cael ei adolygu'n barhaus i sicrhau bod y Cyngor yn wybodus wrth ddarparu gwasanaethau fforddiadwy. Bydd y gwaith hwn yn cael ei gwblhau mewn pryd ar gyfer cyhoeddi'r Setliad Refeniw a Chyfalaf blyneddol y Llywodraeth Leol dros dro.
- 5.4. Bydd hyn yn galluogi'r Cyngor i alinio Refeniw a Setliadau Chyfalaf â'n Hamcanion Lles yng nghyhoeddiadau ein CATC yn y dyfodol, a bydd y rhain ar gael ym mis Mawrth / Ebrill bob blwyddyn.

6. Ymrwymo Ein Cymunedau

- 6.1. Mae un ar ddeg o Isadrannau Etholiadol ym Merthyr Tudful, a gynrychiolir gan 33 o Gynghorwyr. Mae ein Cynghorwyr yn chwarae rôl arweinyddiaeth arwyddocaol fel llysgenhadon yn y cymunedau, gan helpu darparu gwybodaeth gymunedol a helpu i alluogi pobl leol i drawsnewid eu cymuned a mynd i'r afael â'r materion y maent yn eu hwynebu

Rhanbarthau Etholiadol Merthyr Tudful (Wardiau) - Gweler y map isod

- Beddllwynog
- Cyfarthfa
- Dowlais
- Y Gurnos
- Ynysowen
- Parc
- Penydarren
- Plymouth
- Y Dref
- Treharris
- Y Faenor

- 6.2. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gofyn am lefel fwy gweithgar o ymrwymiad cymunedol er mwyn cyflawni'r canlyniadau. Mae hyn yn golygu bod angen inni gynnwys ein cymunedau wrth gynllunio a dylunio gwasanaethau, a chynnwys cymunedau yn y penderfyniadau sy'n effeithio arnynt.


Datblygu Gweithredu Cymunedol

- 6.3. Byddwn yn parhau i ddarparu cefnogaeth i'n Cynghorwyr fel y gallant gynnal gweithdai gweithredu yn ein cymunedau lleol. Y nod fydd sicrhau bod cymunedau'n gallu ymchwilio i a chynllunio ffyrdd o fynd i'r afael â materion lleol y maent yn eu hwynebu, yna gellir darparu cefnogaeth pan fo'i angen.
- 6.4. Fel y nodwyd o'r blaen rydym yn dal i gynnwys cymunedau i ddiwallu eu hanghenion. Ar ol cyfnod o dreialu rydym yn parhau â mentrau dan arweiniad Cynghorwyr a chymunedau. Mae hyn wedi hyrwyddo ymrwymiad Cynghorwyr (Gweler Rhaglen Gwaith y Cabinet) ac mae'n cynnwys cymunedau. Mae nifer o enghreifftiau o hyn. Mae codi sbwriel a thipio anghyfreithlon yn broblem o hyd ar draws y Fwrdeistref Sirol, a mae rhain yn flaenoriaethau gwleidyddol. Felly mae nifer o grwpiau cymunedol wedi'i cefnogi gan Gynghorwyr sy'n ymgymryd â sesiynau gwirfoddol i godi sbwriel yn rheolaidd. Wrth hyrwyddo'r laith Gymraeg sefydlwyd grwp yn y gymuned yn ddiweddar a chefnogir gan Gynghorydd yr Etholaeth. Mae'r fenter hon yn cynnig cyfle i bobl siarad Cymraeg yn y gymuned ac mae'n hyrwyddo'r laith Gymraeg. Mae'n helpu cefnogi a chyflawni Nod cenedlaethol-- 'Cymru yn llawn diwylliant hyfyrw a laith Gymraeg ffynniannus.'

Dywed y Cyngorydd Geraint Thomas, cefnogwr yr Iaith Gymraeg '*Mae Clwb Dysgu Gymraeg Calfaria yn cyfoethogi profiad diwyllianol pobl o bob oedran sy'n mynychu ein clwb clonc bob wythnos. Mae ymdrochi eu hunain yn yr Iaith Gymraeg a siarad yn hamddenol mewn awyrgylch anffurfiol yn adfywio ein mamiaith. Cymru am byth!*'

Bydd yr ymagwedd hon yn parhau a chaiff ei lledaenu

- 6.5. Ewch at ein gwefan yn y Cylchgrawn Cyswllt a gwelwch nifer o enghreifftiau o waith grwp yn y cymunedau sydd wedi digwydd yn y Fwrdeistref Sirol.



0 1 2 3 4 5
Kilometres

	GRADDFA / SCALE: 1:100,000	© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2017 Arolwg Ordnans 100025302 Ni chaniateir i chwi gopio, tan-drwyddedu, dosbarthu neu werthu y data yma i unrhyw drydydd barti mewn unrhyw ffurf. © Crown copyright and database rights 2017 Ordnance Survey 100025302 You are not permitted to copy, sub-licence, distribute or sell any of this data to third parties in any form.	 Cyngor Bwrdeistref Sirol MERTHYR TYDFIL County Borough Council
	DYDDIAD / DATE: 12/06/2017		
	ADRAN / DEPARTMENT: Performance Scrutiny		
	ARLUNIWYD GAN / DRAWN BY: RB (Planning)		
TEITL / TITLE: Merthyr Tydfil Wards and Communities			

7. Amcanion Lles

- 7.1. Er mwyn nodi ein Hamcanion Lles, cynhaliom asesiad lles ar draws Cwm Taf¹. Gwnaethpwyd hyn er mwyn datblygu Amcanion Lles fel rhan o ddogfen Ffocws ar y Dyfodol: Lles yn ein Cymuned a ryddhawyd yn 2017 am y cyfnod o 2017 i 2022. Yn ogystal, buom yn cydweithio â phreswylwyr i sefydlu dealltwriaeth sylfaenol o les ym Merthyr Tudful. Yn ystod blwyddyn gyntaf y Cynllun, rydym wedi cofnodi'r cyflawni ac wedi cadw mewn cof gwersi a ddysgwyd, yn enwedig yr hyn sy'n ymwneud â llywodraethu'r cynllun. Mae'r wybodaeth hon wedi helpu llunio'r Amcanion Lles a deall ymatebion posibl i wella lles. Yn gryo, mae ein hamcanion lles yn cwmpasu pedair thema². Wrth ddysgu gwersi y flwyddyn gyntaf lle rydym wedi ymgysylltu ag aelodau craffu, rydym wedi symleiddio ein naw amcan gwreiddiol i bedwar. Mae'r rhain yn darparu ffocws cyflwyno dan bob thema. Fodd bynnag, dylid nodi bod pob blaenoriaeth yn dilyn yr ymgysylltiad gwreiddiol yn parhau. Mae'r pedair thema a'r amcanion heb eu newid ar gyfer y flwyddyn 2019/2020

DG Dechrau Gorau

- DG Mae plant a phobl ifanc yn cael y dechrau gorau i fywyd ac yn meddu ar y sgiliau y mae eu hangen arnynt i fod yn ddysgwyr llwyddiannus ac yn unigolion hyderus

BG Bywyd Gwaith

- BG Mae pobl yn derbyn cefnogaeth i ddatblygu'r sgiliau priodol i ddiwallu anghenion busnesau sydd â seilwaith datblygu diogel, gan wneud Merthyr Tudful yn gyrchfan ddeniadol

LIA Lles Amgylcheddol

- LIA Mae cymunedau'n diogelu, gwella ac hyrwyddo ein hamgylchedd a chefn gwlad.

BDd Byw yn Dda

- BDd Galluogir pobl i fyw'n annibynnol yn eu cymunedau, lle maent yn ddiogel ac yn mwynhau iechyd corfforol da a iechyd meddwl da

- 7.2. Yn y cynllun hwn, rydym yn amlinellu'r camau a ddilynwn i sicrhau ein bod yn gwneud y gorau o'n cyfraniad at yr Amcanion Lles. Bydd y cynllun hwn yn canolbwyntio ar yr hyn a wneir i gyflawni'r Amcanion Lles gan gynnwys blaenoriaethau allweddol, cynlluniau cysylltiedig a strategaethau.

¹ Gallwch ddarllen [asesiadau lles y boblogaeth](#) a'r [asesiadau lles ar wefan Ein Cwm Taf](#)

² Gallwch ddarllen ein Datganiad o Lles [ar wefan](#) y Cyngor

- 7.3. Yn ystod 2017/2018, datblygwyd amcanion rhanbarthol Cwm Taf. Gwnaed hyn drwy ymgysylltu â chymunedau ar draws Cwm Taf ac roedd yn cynnwys sawl sefydliad. Mae hyn wedi arwain at ffurfio tri amcan rhanbarthol a gellir gweld y rhain yn y ddogfen 'Ein Gweledigaeth a Rennir' drosodd. Mae blaenoriaethau gwleidyddol hefyd wedi'u llunio, ac wedi'i cymryd o'r farn a fynegwyd gan gymunedau Merthyr Tudful yn ystod cyfnod yr etholiad lleol.
- 7.4. Mae hyn wedi golygu bod ein Prif Swyddogion wedi gweithio gyda'u timau a chyda'i gilydd i ail-ffocysu ar eu strategaethau i gyflawni eu Hamcanion Lles a bod yn fwy gwybodus wrth ddylunio gwasanaethau fforddiadwy. Mae'r ffocws ar bob Amcan Lles a bydd dangosyddion perfformiad allweddol yn dangos pa mor dda yr ydym yn cyflawni. Y pum ffordd o weithio yw'r sail ar gyfer gwneud pethau gwahanol (a gwneud pethau'n wahanol). Mae hyn yn creu strategaeth ar dudalen (SAD) ar gyfer pob Amcan Lles. Yna bydd hyn yn sail i'r broses hunanwerthuso sy'n mynd rhagddo; mewn geiriau eraill, ffordd o brofi a ydym yn gwneud gwahaniaeth. Edrychwch ar y dudalen '[Datganiad Lles](#)' ar ein gwefan lle y gwelwch y Strategaethau diweddaraf ar y dudalen
- 7.5. Fel yn y blynyddoedd blaenorol rydym yn dal i ddysgu gwersi a chyflawni ymhellach yn ol y canlyniadau a gytunwyd. Enghraifft o hyn yw cyflawni strategaethau a prosiectau. Wrth ddatblygu ein hymagwedd hunanwerthuso roedd yn amlwg bod cyfle gyda ni i symleiddio strategaethau er mwyn ffocysu'n well i gyflawni ein Hamcanion Lles. Felly rydym yn bwriadu edrych ar ailffocysu ein strategaethau i gyflawni'n Hamcanion yn well ac i'n helpu ni i gyflwyno hunanwerthuso adeiladol. Yna, bydd hyn yn arwain at brosiectau. Trwy ailffocysu ar ein strategaethau, gallwn adnabod blaenoriaethau ac alinio adnoddau fel y bo'r modd. Gellir alinio adnoddau yn well ar gyfer prosiectau trawsdoredig a gwella'r cyflawni drwy'r pum ffordd o weithio.
- 7.6. Unwaith eto, drwy ddysgu gwersi o Flwyddyn 2 a chwblhau cynllun hunanwerthuso o Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, rydym yn ceisio cryfhau ein dull o integreiddio strategaethau. Mae'r tablau yn yr unedau isod yn amlinellu ardaloedd gwasanaethau ar draws CBSMT sy'n cysylltu a'i gilydd i gyflawni Amcanion Lles. Ym Mlwyddyn3 byddwn yn ymchwilio i'r modd y gellir integreiddio strategaethau yn well a'r modd y gall partneriaid mewnol ac allanol ymgysylltu ymhellach i gyflawni ein Hamcanion Lles.
- 7.7. Er mwyn codi ymwybyddiaeth, dealltwriaeth a'r awydd i newid ar draws y Cyngor a thu hwnt rydym wedi datblygu dogfen o'r enw 'Ein Gweledigaeth a Rennir'. Mae hyn yn cysylltu'r Amcanion Lles lleol a amlinellir uchod ag amcanion rhanbarthol a blaenoriaethau gwleidyddol Cwm Taf. Mae'r ddogfen yn cysylltu hyn â'r 'Gymru yr ydym ei Eisiau' a sut y byddwn yn ei gyflawni (hynny yw, y pum ffordd o weithio). Mae gan bob Amcan Lles strategaeth ar dudalen o dan y rhain, fel yr eglurir uchod. Mae hyn yn creu edafedd clir o'r Gymru yr ydym ei eisiau i lawr i strategaethau ac yna cynlluniau gweithredol a gwerthusiadau Staff wrth gyflawni hyn. Mae hyn yn golygu y gall aelodau staff fel

unigolion, weld sut maent yn cyfrannu a mae proses gwerthuso perfformiad Staff mewnol wedi cael ei adolygu i sicrhau bod cysylltiadau a'r Amcanion Lles yn gliriach. Mae hyn yn rhan o'r edafedd clir sy'n cysylltu ein gweledigaeth, amcanion lles, targedau tim a nodau personol.

EIN CYD-WELEDIGAETH

"GWEITHREDU HEDDIW AR GYFER GWELL YFORY"

Y Cymru rydym ni eisïau:

Cymru ffyniannus	Cymru wydn	Cymru iachach	Cymru mwy cyfartal	Cymru o gymunedau cydlynol	Cymru o ddiwylliant bywiog a iaith Gymraeg ffyniannus	Cymru sy'n gyfrifol yn fyd-eang
------------------	------------	---------------	--------------------	----------------------------	---	---------------------------------

Y weledigaeth a rennir ar gyfer Merthyr Tudful i gyrraedd yno:

I grythau sefyllfa Merthyr Tudful fel canolfan ranbarthol Blaenau'r Cymoedd, a bod yn lle i fod yn falch ohono, ble:

Mae pobl yn dysgu a datblygu sgiliau i gyflawni eu huchelgais,

Mae pobl yn byw, yn gweithio, yn cael bywyd diogel, iach a chyflawn,

Mae pobl yn ymweld, yn mwynhau ac yn dychwelyd

Sut y bydd CBS Merthyr Tudful yn gweithio?



Tymor Hir



Atal



Integreiddio



Ymglymiad



Cydweithredu

Sut fyddwn ni'n cydweithio i gyflawni'r Weledigaeth A Rennir a chyflawni ein nodau

Canolbwyntio ar y Dyfodol

Cychwyn Gorau i Fywyd

Mae gan blant a phobl ifanc y dechrau gorau i fywyd ac mae ganddynt y sgiliau sydd eu hangen arnynt i fod yn ddysgwyr llwyddiannus ac yn unigolion hyderus.

Bywyd Gwaith

Mae pobl yn teimlo cefnogaeth i ddatblygu'r sgiliau priodol i ddiwallu anghenion busnesau sydd â seilwaith datblygu, diogel, gan wneud Merthyr Tudful yn gyrchfan ddeniadol.

Lles Amgylcheddol

Mae cymunedau'n diogelu, gwella a hyrwyddo ein hamgylchedd a chefn gwlad.

Byw yn Dda

Mae pobl yn cael eu grymuso i fyw'n annibynnol yn eu

Cynllun Lles y BGC

Gwydnwch a Lles y Gymuned

Hyrwyddo cymunedau diogel, hyderus, cryf a ffyniannus sy'n gwella lles trigolion ac ymwelwyr ac adeiladu ar ein hasedau cymunedol.

Ffordd o fyw, iechyd a bregusrwydd

I helpu pobl i fyw bywydau hir ac iach a goresgyn unrhyw heriau.

Economi a Seilwaith

I dyfu economi leol gref gyda chlustiant cynaliadwy sy'n denu pobl i fyw, gweithio a chwarae yng Nghwm Taf.

Mynd i'r afael ag unrigrwydd ac unigedd (Amcan trawsbyncio!)

Byddwn yn gweithio mewn ffyrdd newydd i sianelu cryfderau'n cymunedau, gan gynnwys gwirfoddolwyr, i fynd i'r afael yn fwy effeithiol â'r unrigrwydd a'r unigedd sy'n aml yn bodoli o fewn

Blaenoriaethau Gwleidyddol

Byddwn yn gofalu am ein holl ddinasyddion trwy ddarparu addysg a gofal cymdeithasol o ansawdd fforddiadwy sy'n galluogi pawb i fyw eu bywydau i'w llawn potensial.

Byddwn yn annog ffyrdd o fyw bywiog a hyrwyddo lles.

Byddwn yn cefnogi amgylchedd ac economi cryf, cynaliadwy, amrywiol a llwyddiannus.

FFOCWS AR Y DYFODOL

Lles yn ein Cymuned

8. Cyfraniad ein Hamcanion Lles i'r Nodau Lles

- 8.1. Dengys y Saith Nod Lles³ y math o Gymru yr ydym am ei gweld. Gyda'i gilydd maent yn darparu gweledigaeth ar y cyd i Gyrrff Cyhoeddus Cymru weithio tuag ati. Mae'r siart isod yn rhoi crynodeb byr o ble mae ein Hamcanion Lles yn cyd-fynd yn bennaf â'r Nodau Lles.

Nod Lles
Cymru ffyniannus
Cymru wydn
Cymru iachach
Cymru fwy cyfartal
Cymru o gymunedau cydlynol
Cymru a diwylliant bywiog ac iaith Gymraeg ffyniannus
Cymru sy'n gyfrifol yn fyd-eang

Amcan Lles	Nodau Lles						
Dechrau Gorau							
Bywyd Gwaith							
Llesiant Amgylcheddol							
Byw yn Dda							

³ Gallwch ddarganfod mwy o wybodaeth am y Ddeddf a'r Nodau Lles yn y [Canllaw](#) hwn.

9. **Amcan Dechrau Ganol:** Mae plant a phobl ifanc yn cael y dechrau gorau ac yn meddu ar y sgiliau y mae eu hangen arnynt i fod yn ddysgwyr llwyddiannus ac yn unigolion hyderus

Blaenoriaeth yr Amcan hwn yw sicrhau gwelliannau yng nghanlyniadau addysgol plant a phobl ifanc.

Enghreifftiau o Gyfrangwyr at yr Amcan Lles Hwn		
<u>Ardaloedd Gwasanaethau</u>		<u>Cyfrangwyr Eraill</u>
<i>Codi Safonau</i>	<i>Lles y Gymuned</i>	<i>Adnoddau Chwaraeon</i>
<i>Gwella Ysgolion</i>	<i>Gwasanaethau Ieuencid</i>	<i>Tim o Gwmpas y Teuluoedd</i>
<i>Anghenion Dysgu Arbennig</i>	<i>Cynnwys a Lles</i>	
<i>Blynyddoedd Cynnar</i>	<i>Cynllunio Ysgolion a</i>	
	<i>Chefnogaeth</i>	
	<i>Adnoddau</i>	

- 9.1. Mae'r Amcan hwn yn cynnig ymagwedd gyfannol a chynaliadwy i ddiwallu anghenion plant a phobl ifanc. Tra bod yr ymagwedd hon yn bwysig i bob plentyn bydd o fudd yn bennaf i blant sy'n wynebu anhawster neu sydd â risg uchel o ganlyniadau gwael yn hwyrach mewn bywyd.
- 9.2. Mae addysg yn un o ragfynegwyr clir iaf canlyniadau bywyd, megis cyflogaeth, incwm a statws cymdeithasol, ac mae'n rhagfynegi agweddau a lles. Mae'r amcan yn integreiddio'r daith addysgol gyflawn, o'r blynyddoedd cynnar hyd at flynyddoedd gorfodol, ac ôl-16. Mae'r amcan yn rhoi sgiliau a phriodolddau i blant a phobl ifanc i'w helpu gwella eu bywydau eu hunain.
- 9.3. Y Canlyniadau Allweddol y mae Dechrau Gorau i Fywyd am eu cyflawni yw:
- Plant yn byw mewn amgylchedd cartrefol ac ysgogol
 - Plant yn cael mynediad i addysg cyn ysgol ac oedran ysgol o ansawdd uchel
 - Gwella canlyniadau addysgol i bob plentyn ac i bobl ifanc
 - Plant a phobl ifanc yn mwynhau iechyd a lles da
- 9.4. Byddwn yn cyflawni'r canlyniadau hyn drwy adfywio ein Strategaeth Codi Safonau Allweddol a thrwy ganolbwyntio i fynd i'r afael â blaenoriaethau allweddol i wella
- Codi lefelau cyrhaeddiad yn enwedig mewn Mathemateg a Saesneg Cyfnod Allweddol4
 - Mynd i'r afael â lleihau absenoldeb parhaus

- Gwella ansawdd arweinyddiaeth mewn ysgolion
- Diwallu anghenion dysgwyr bregus
- Gwella lles disgyblion
- Defnyddio data yn effeithlon i hysbysu targedu adnoddau er mwyn cyflawni gwell canlyniadau

Sut y gwyddom fod pethau'n gwella?

9.5. Mae pob Amcan yn defnyddio Fframwaith Rheoli Perfformiad Cyson a nodir ar adnawdd o'r enw SAD strategaeth ar dudalen. Mae'r ddogfen hon yn dynodi'r Amcan Lles, Canlyniadau a Dangosyddion Perfformiad Allweddol ac yn llunio sail hunanwerthuso a Chynlluniau Gwella Adrannau Busnes.

Gwyddom fod pethau'n gwella pan fydd

- canlyniadau a safonau addysgol i ddysgwyr, unigolion a grwpiau, yn gwella
- datblygiad Iaith Gynnar plant yn gwella
- Iechyd a lles plant a phobl ifanc yn gwella
- Gwytnwch ymysg teuluoedd sy'n derbyn cefnogaeth yn gwella

Hoffech chi wybod mwy?

Ewch i wefan y Cyngor i ddysgu mwy am:

[Ysgolion a Dysgu](#)

[Gwybodaeth i Deuluoedd](#)

[Cyflogadwyedd a Dysgu Oedolion](#)

[Gofal Cymdeithasol i Blant a Theuluoedd](#)

10. Amcan Bywyd Gwaith: Mae pobl yn teimlo cefnogaeth i ddatblygu'r sgiliau priodol i ddiwallu anghenion busnesau sydd â seilwaith datblygu, diogel, gan wneud Merthyr Tudful yn gyrchfan ddeniadol

Blaenoriaeth yr Amcan Hwn yw datblygu'r amgylchedd a rhwydwaith er mwyn i fusnesau ffynnu.

Enghreifftiau o Gyfrangwyr at yr Amcan Lles Hwn		
<u>Ardaloedd Gwasanaethau</u>		<u>Cyfrangwyr Eraill</u>
<i>Adfywio'r Gymuned</i>	<i>Tai a Digartrefedd</i>	<i>Ystadau</i>
<i>Adfywio Corfforol</i>	<i>Cyflogadwyedd a Sgiliau</i>	<i>Cynllunio</i>
<i>Diolgelwch y Gymuned</i>	<i>Cludiant</i>	<i>Cefngwlad</i>
<i>Mewnsoddiad</i>	<i>Assedau Treftadaeth a</i>	
<i>Datblygu Economeg</i>	<i>Diwylliant</i>	
<i>Trwyddedi a Safonau</i>	<i>Iechyd Amgylcheddol</i>	
<i>Masnach</i>		

- 10.1. Mae'r Amcan Lles Hwn yn cynnig ymagwedd gyfannol a chydweithrediadol i leihau anfantais gymdeithasol trwy gefnogi datblygiad parhaus yr economi lleol; cynnal a gwella ymwybyddiaeth y gymuned o'r cyfleoedd sydd ar gael iddynt tra'n cynnig cyngor a chefnogaeth ar sut i'w cyrchu.
- 10.2. Mae tystiolaeth yn awgrymu nad yw Lles Personol a Lles Materol ar wahan: Cysylltir y ddau, a rhyddid personol a chyflawni yn adlewyrchu adnoddau pobl yn fawr iawn. Drwy ddatblygu poblogaeth fedrus ac addysgedig mewn economi mae cyfleoedd cyfoeth a chyflogi yn cael eu creu, gan ganiatau i bobl fanteisio ar rain trwy dderbyn cefnogaeth i weithio. Mae'r ddarpariaeth sy'n galluogi gwasanaethau megis cludiant cyhoeddus o help i gyflawni hyn.
- 10.3. Mae Bywyd Gwaith am gyflawni'r canlyniadau allweddol hyn;
- Merthyr Tudful yn cyflawni potensial ei economi â gweithlu medrus a chyfleoedd cyflogi
 - Pobl yn gwerthfawrogi ac yn mwynhau'r amgylchedd naturiol ac adeiledig, yn gwarchod a gwella ein hasedau diwylliannol i genedlaethau'r presennol a chenedlaethau'r dyfodol a
 - Mae gennym gymunedau cryf, gwydn a chefnogol lle mae pobl yn ysgwyddo cyfrifoldeb dros eu gweithredoedd eu hunain a'r modd y maent yn effiethio ar eraill
- 10.4. Byddwn yn cyflawni' canlyniadau hyn drwy weithgareddau wrth ymateb i'n strategaeth allweddol, Strategaeth Twf Economeg ac wrth fynd i'r afael â'n blaenoriaethau allweddol:

- Gwella mynediad i addysg fydd yn arwain at gynyddu nifer y trigolion a chymwysterau;
- Cynyddu nifer pobl leol sy'n cael mynediad i; sicrhau a chynnal cyflogaeth, gwella argaeledd y gweithlu i'r farchnad leol;
- Cynyddu cyfrannedd busnesau newydd a busnesau sy'n goroesi gan gynnwys mentrau cymdeithasol;
- Cynyddu cynhyrchiant y sector busnes
- Cynnal twristiaeth addas, datblygiadau ym myd hamdden ac adloniant, gan fanteisio ar ein hamgylchedd naturiol ac asedau treftadaeth/diwylliant;
- Cynyddu cyfleoedd ar gyfer tai adnewyddiadwy a chynaliadwy, a datblygiadau ynni adnewyddiadwy
- Creu cymunedau cynaliadwy ac ymdeimlad gref o fannau sydd â photensial economaidd cynyddol; a
- Gwella cludiant cyhoeddus a moddau cludo cynaliadwy

Sut y gwyddom a yw pethau'n gwella?

10.5. Trwy fonitro dangosyddion perfformiad allweddol gwyddom fod pethau'n gwella pan:

- Bydd pobl ym Merthyr yn cael gafael ar y sgiliau i fodloni anghenion newidiol cyflogwyr;
- Bydd ein hamgylchedd a'n seilwaith sy'n datblygu yn newid i ddiwallu'r angen dynodedig ac yn hyrwyddo mewnfuddsoddiad a chefnogi trethi busnes i'w helpu i oroesi;
- Bydd ein hasedau treftadaeth a diwylliannol yn dal i gael eu gwerthfawrogi, eu diogelu a'u hyrwyddo er mwyn cynyddu'r economi;
- Bydd pobl sy'n byw ac yn ymweld â Merthyr yn teimlo'n ddiogel ac yn cael eu cynnwys; a
- Bydd y mwyaf difreintiedig yn y farchnad dai yn cael eu cysylltu a'u cefnogi

Hoffech chi wybod mwy?

Ewch i wefan y Cyngor i ddysgu mwy am:

[Cyflogadwyedd a Dysgu Oedolion](#)

[Parcio, Ffyrdd a Theithio](#)

[Cynllunio a Rheoli Adeiladu](#)

[Gofal plant](#)

[Gwybodaeth i Deuluoedd](#)

[Datblygu Gwledig](#)

[Cadwraeth](#)

[Twristiaeth](#)

[Diwylliant](#)

[Diogelwch Cymunedol](#)

[Troseddau, Diogelwch ac Argyfyngau](#)

11. **Amcan Llesiant Amgylcheddol: Mae cymunedau'n diogelu, gwella a hyrwyddo ein hamgylchedd a chefn gwlad**

Blaenoriaeth yr Amcan hwn yw gwella defnydd effeithlon o ddefnyddiau ac adnoddau gan Hierarchiaeth Wastraff a chreu Cynllun Adfer Natur Cyntaf y Cyngor.

Enghreifftiau o Gyfrangwyr at yr Amcan Lles Hwn		
<u>Ardaloedd Gwasanaethau</u>		<u>Cyfrangwyr Eraill</u>
<i>Gwasanaethau gwastraff</i>	<i>Glanhau Strydoedd</i>	<i>Adfywio cymunedol</i>
<i>Gwasanaethau Eiddo</i>	<i>Priffyrdd a Pheirianwaith</i>	
<i>Bioamrywiaeth</i>	<i>Iechyd yr Amgylchedd</i>	
<i>Ystadau</i>	<i>Rheoli Adeiladwaith</i>	
<i>Polisi a Gweithredu</i>		
<i>Gwasanaethau Tirwedd</i>		
<i>Rheoli Datblygiad</i>		
<i>(yn cynnwys ardaloedd cadwraeth)</i>		

- 11.1. Mae'r Amcan Lles hwn yn cynnig ymagwedd gyfannol i fodloni anghenion lles ym Merthyr Tudful. Dylid dehongli'r anghenion hynny i gynnwys mannau gwyrdd o ansawdd dda a chysylltedd, diogelu cynefinoedd a bioamrywiaeth, systemau eco gwydn, tirwedd ac atal llygredd. Tra bod yr ymagwedd hon yn bwysig i'r amgylchedd yn ei grynsyth, bydd yn fuddiol i ardaloedd ble mae problemau amgylcheddol allweddol neu risgiau.
- 11.2. Ffocws yr Amcan Lles Hwn yw 'r gwaith a wnawn â'n cymunedau i warchod, gwella ac hyrwyddo'r amgylchedd a chefn gwlad. Bydd y ffordd rydym yn trin yr amgylchedd a chefn gwlad yn ffactor hanfodol i ddyfodol cynaliadwy ym Merthyr Tudful oherwydd bydd buddion i wella ein hamgylchedd i'w ymdeimlo ar draws pob un o'n amcanion lles.
- 11.3. Mae Lles yr Amgylchedd am gyflawni'r canlyniadau allweddol hyn;
- Lleihau difrod trwy atal llygredd
 - Gwneud y gorau o defnyddio deunyddiau ac adnoddau ailgylchadwy trwy'r Hierarchiaeth Wastraff;
 - Mae seilwaith mannau agored a mannau gwyrdd o ansawdd dda a bioamrywiaeth gysylltiedig
 - Hyrwyddo a chefnogi'r defnydd o ynni adnewyddiadwy a charbon isel
- 11.4. Byddwn yn cyflawni'r canlyniadau hyn trwy'r cynllun Busnes Rheoli Gwastraff a'r Cynllun Adfer Natur a chanolbwyntio ar yr angen i wella trwy fynd i'r afael â'n blaenoriaethau allweddol.

- Cynyddu swm metalau a phapur a ailgylchir yn y Fwrdeistref Sirol er mwyn bodloni targedau ailgylchu yn unol â Llywodraeth Cymru
- Glendid ar ein strydoedd a phriffyrdd yn gwella
- Lleihau lefelau tipio anghyfreithlon
- Cynhyrchu Cynllun Adfer Natur a sicrhau bodlondeb y Cyngor a'r Cynllun

Strategaethau allweddol eraill fydd yn ein helpu i gyflawni'r Amcan hwn yw'r Cynllun Datblygu Lleol, Cynllun Adfer Natur, Cynllun Rheoli Carbon a'r Cynllun Rheoli Asedau Corfforiaethol.

Sut fyddwn ni'n gwybod a yw pethau'n gwella?

11.5. Mae pob Amcan yn defnyddio fframwaith rheoli perfformiad cyson a nodir ar adnawdd a enwir Strategaeth ar dudalen (SAD). Mae'r ddogfen hon yn dynodi amcanion lles, canlyniadau a dangosyddion perfformio allweddol sy'n llunio sail hanunwerthuso. Cyflawnwir gwaith i adolygu a datblygu Cynlluniau Gwella Busnes Cadarn.

11.6. Gwyddom fod pethau'n gwella pan

- bydd ansawdd yr aer ar Ffordd Twynyrodyn yn gwella;
- bydd allyriadau CO2 yr awdurdod lleol yn lleihau 3% o'i adeiladau (y flwyddyn);
- bydd amser i glirio achosion tipio anghyfreithlon sy'n hysbys ar dir y Cyngor yn gwella;
- bydd glendid ein strydoedd yn gwella;
- bydd ein cyfraddau ailgylchu yn gwella; a
- bydd nifer y Mannau Agored yn cael eu blaenoriaethu (allan o 23 Mannau Agored Blaenoriaeth) yn cwrdd a neu'n uwch na'r safon ansawdd: Iach a Diogel.

Hoffech chi wybod mwy?

Ewch i wefan y Cyngor i ddysgu mwy am:

[Biniau ac ailgylchu](#)

[Tipio anghyfreithlon](#)

[Llygredd aer](#)

[Mannau agored](#)

12. **Amcan Byw yn Dda: Mae pobl yn cael eu galluogi i fyw'n annibynnol yn eu cymunedau, lle maent yn ddiogel ac yn mwynhau iechyd corfforol a iechyd meddwl da.**

Blaenoriaeth yr Amcan hwn yw sicrhau bod pobl yn gallu byw yn annibynnol ac yn ddiogel

Enghreifftiau o Gyfrangwyr at yr Amcan Lles Hwn		
<u>Ardaloedd Gwasanaethau</u>		<u>Cyfrangwyr Eraill</u>
Llwyddiant cynaliadwy a throsoglwyddo	Ymyrraeth gynnar ac atal Ymyl gofal	Gwasanaethau Addysg Adfywio cymunedol
Gwarchod pobl hyn ac anabl	Iechyd meddwl yn y	
Gwasanaethau Dydd	Gymuned	
Cefnogi pobl	Gofal Preswyl	
Ymateb Dechreuol ac ail alluogi	Gwasanaethau Comisiynu	

- 12.1. Mae'r Amcan Lles Byw yn Dda yn ymwneud a chodi nifer yr unigolion, teuluoedd a chymunedau i sicrhau'r canlyniadau gorau iddynt hwy eu hunain. Mae'n ymwneud â chodi gwytnwch a darparu lefel briodol cefnogaeth cyn i broblemau godi neu cynyddu. Bydd hyn yn helpu lleihau'r angen i fod ynghlwm ag unrhyw argyfwng ac yn helpu mwy o waith ataliol.
- 12.2. Mae gweithio'n agos a'n partneriaid i fynd i'r afael a phrofiadau bywyd gwael plant yn gynnar yn sicrhau bod teuluoedd mwy bregus yn aros gyda'i gilydd; cynyddu nifer y plant sy'n gallu byw gartref yn ddiogel (neu'n agos i gartref) ac yn eu rhwystro nhw rhag gorfod bod mewn gofal.
- 12.3. Bydd darparu'r wybodaeth gywir a chefnogaeth ar yr adeg cywir i bobl hŷn bregus yn eu galluogi nhw i gael gwell reolaeth dros eu bywydau nhw eu hunain, yn helpu atal rhag bod yn unig ac yn eu helpu i fyw yn ddiogel yn eu cartrefi eu hunain. Drwy wasanaethau megis 'Ymateb Dechreuol ac Ailalluogi' a' @Gwasanaeth Cartref' cefnogir pobl i gadw'n iach a byw yn annibynnol gartref, gan osgoi'r angen i fynd i ysbyty. Pan fydd yn angenrheidiol i bobl fynd i'r ysbyty cefnogir unigolion i ddychwelyd i'w cartrefi mewn modd diogel ac amserol.
- 12.4. Y canlyniadau Mae Byw yn Dda eisiau eu cyflawni yw
- Pobl yn byw yn ddiogel ac yn annibynnol yn eu cymunedau
 - Gwarchod plant ac oedolion rhag niwed a gofalu eu bod yn ddiogel
 - Plant a phobl ifanc yn byw yn ddiogel gyda'u teuluoedd neu yn agos at gartref a throsoglwyddo'n dda i fywyd oedolyn
- 12.5. Byddwn yn cyflawni'r canlyniadau hyn i wella trwy ganolbwyntio ar ein blaenoriaethau

- Gwella gwasanaeth ymyrraeth gynnar ac atal (oedolion, plant a theuluoedd)
- Lleihau nifer y plant mewn gofal
- Galluogi nifer cynyddol o oedolion i fyw yn annibynnol.

Maenifer o gynlluniau rhanbarthol a strategaethau fydd yn helpu cyflawni'r amcan, gan gynnwys Cynllun Rhanbarthol Gwasanaethau Cymdeithasol Cwm Taf a Bwrdd Lles Partneriaeth 2018-2023 a Chynllun Blyneddol Bwrdd Diogelu Cwm Taf 2018-2019. Ymgwymerir gwaith a swyddogion allweddol a rhanddeiliaid eraill i adolygu a symleiddio cynlluniau presennol a strategaethau. Bydd hyn yn helpu mynd i'r afael â dyblygu a dynodi cyfleoedd newydd ar gyfer cyd weithio.

Sut y gwyddom fod pethau'n gwella?

12.6. Mae pob amcan yn defnyddio fframwaith rheoli perfformiad cyson a nodir ar adnawdd o'r enw SAD-- strategaeth ar dudalen. Mae'r ddogfen yn dynodi amcanion lles, canlyniadau a dangosyddion perfformio allweddol; ac mae'n llunio sail hunanwerthuso.

Gwyddom fod pethau'n gwella pan

- Bydd nifer y plant ar Gofrestr Diogelu Plant neu sydd mewn gofal yn lleihau
- Bydd nifer y plant sy'n gallu byw gartref yn ddiogel yn cynyddu
- Bydd nifer y plant sydd mewn gofal ac yn cael bywyd mwy sefydlog yn cynyddu
- Bydd nifer pobl hyn sy'n aros mewn ysbyty yn hirach nag sydd ei angen oherwydd rhesymau gofal cymdeithasol yn lleihau
- Bydd nifer yr oedolion sy'n gallu byw yn annibynnol ar ol cyfnod o ailgartrefu yn cynyddu
- Bydd mwy o bobl yn cymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol
- Bydd mwy o bobl sydd wedi dioddef trais yn y cartref yn nodi gwelliant yn ansawdd eu bywyd.

Hoffech chi wybod mwy?

Ewch i wefan y Cyngor i ddysgu mwy am:

[Diogelu](#)

[Help i fyw gartref](#)

[Gofal Cymdeithasol i Oedolion a Phobl Hŷn](#)

[Cydraddoldebau](#)

[Chwaraeon a Hamdden](#)

[Iechyd meddwl](#)

13. Camau fydd yn helpu cyflawni'r Saith Nod Lles Cendlaethol

- 13.1 Mae dyletswydd ar y Cyngor i gymryd camau priodol wrth ymdrechu ac anelu i gyflawni'r Saith Nod Lles a'n Hamcanion Lles. Mae Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yn nodi'r camau hyn sy'n ymestyn o newidiadau syml y gellir eu gwneud yn rhwydd ac yn gyflym i weithredoedd mwy uchelgeisiol ac ymestynnol ac yn y pen draw i weithredoedd fydd yn arwain y ffordd at 'Cymru rydym ei heisiau' i Genedlaethau yn y Dyfodol.
- 13.2 Rydym yn dal i fanteisio ar y cyfleoedd a ddarperir gan Ddeddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol i benderfynu'r modd y byddwn yn cyflawni busnes.
- 13.3 Isod, mae detholiad o'r camau y byddwn yn eu dilyn i sicrhau ein bod ni fel Cyngor yn gallu gwella Lles Cenedlaethau'r Dyfodol.

Ysgolion yr 21ain Ganrif

Fel rhan o'n hymrwymiad i ddarparu Dechrau Bywyd Da i genedlaethau o blant a phobl ifanc yn y Dyfodol, rydym yn gweithio i hyrwyddo amgylcheddau dysgu deniadol ac ysgogol yn seiliedig ar egwyddorion cynllunio cynaliadwy a charbon isel ac ynni effeithlon drwy gyflawni Ysgolion yr Unfed Ganrif ar Hugain â rhaglenni buddsoddi cyfalafol. Wrth gyd weithio a rhanddeiliaid sy'n cynnwys Cynllunio, Gwasanaethau Eiddo a Gwasanaethau Pensaernïol Blaenau Gwent, ein huchelgais yw darparu'r amgylcheddau dysgu, cost effeithiol gorau a gwaith cynnal a chadw isel. Bydd gwaith adeiladu ein hysgolion yn cydfynd â safon ardderchog BREEAM sy'n ymgorffori egwyddorion ecolegol uchelgeisiol a bioamrywiaeth. Mae holl brosiectau ysgolion a buddsoddi cyfalafol yn defnyddio o leiaf 15% o ddeunyddiau a ailgylchir ac ailddefnyddir.

Rydym wedi ymrwymo i gynnwys y gymuned yn ein cynlluniau yn cynnwys ymrwymiad sy'n ymwneud ag opsiynau aildrefnu ysgolion, dewis safle/adeiladau a defnydd arfaethedig o'r safle/adeiladau er mwyn i ysgolion ddod yn asedau a werthfawrogrir ac a ddefnyddir fwy fwy yn ein cymunedau.

Fel rhan o'r cynigion buddsoddi cyfalafol rydym yn anelu lleoli addysg blynnyddoedd cynnar a gofal plant ar safleoedd ysgolion ac hyrwyddo'r iaith Gymraeg drwy gynyddu darpariaeth llefydd ysgol a gofal plant trwy gyfrwng y Gymraeg.

Llwybrau'r Dyfodol i ddisgyblion

Rydym ni am sicrhau bod gan ein plant a phobl ifanc y wybodaeth briodol a'r sgiliau i wneud y dewisiadau cywir am eu dyfodol yn yr hir dymor. Yn yr un modd rydym am sicrhau ein bod ni fel cyngor yn cynnig i blant a phobl ifanc y dewisiadau a fydd yn diogelu gwell ddyfodol.

Drwy weithio ar draws y Cyngor a gyda phartneriaid allanol byddwn yn cymryd ymagwedd integredig i ddynodi yn gyntaf cwmpas addysg, hyfforddiant chyfleoedd cyflogi sydd ar gael ar hyn o bryd yn lleol ac ar draws rhanbarth ehangach Bargaen Rhanbarthol Dinas Caerdydd. Bydd hyn yn caniatáu inni ddynodi'r llwybrau mwya effeithiol i anghenion sgiliau'r dyfodol a dynodi bylchau yn y ddarpariaeth gyfredol.

Rydym am i bobl ifanc ddechrau trafodaethau ynglyn a sgiliau'r dyfodol yn gynnar yn eu addysg er mwyn iddynt hwy a'u teuluoedd fod yn wybodus wrth iddynt wneud penderfyniadau am eu dyfodol. Drwy gydweithio'n agos ag ysgolion, y coleg a busnesau byddwn yn sicrhau bod y cwricwlwm yn bodloni angen yn y dyfodol.

Gallu Ariannol

Rydym yn gweithio a theuluoedd ac wrth wrando arnynt, nodwyd gallu ariannol fel mater sy'n effeithio'n negyddol ar les ac mae'n rhwystr rhag gweithio'n gadarnhaol â gwasanaethau. Er mwyn cefnogi teuluoedd i reoli dyled a chaniatau iddynt gynllunio'n well i'r dyfodol, rydym yn gweithio i rwystro teuluoedd rhag mynd i argyfwng.

Drwy gydweithio a Chanolfan Cyngori Merthyr Tudful rydym yn darparu cefnogaeth unigryw i deuluoedd er mwyn eu helpu reoli eu dyled a'u galluogi i fod yn fwy cynaliadwy. Hyd yn hyn rydym wedi cydweithio a thri theulu ar ddeg (yn cynnwys tri deg tri o blant) a deliwyd â dyled gwerth £153,029.13 Yn ogystal mae'r teuluoedd hyn wedi elwa o incwm ychwanegol gwerth £46,636.23. Rydym hefyd yn gweithio i godi cynnydd o fewn y teuluoedd hyn er mwyn osgoi problemau dyled yn codi yn y dyfodol ac felly rhoi amser a lle i'r teuluoedd hyn cyrchu cefnogaeth drwy gynigion eraill.

Lles

Ar hyn o bryd, mae ein Gwasaneth Ieuenctid yn gweithio a phobl ifanc mewn nifer o ysgolion Uwchradd ar raglenni sy'n cefnogi lles emosiynol a bydd y gwaith hwn yn cael ei ledaenu er mwyn inni gysylltu â chymaint o bobl ifanc ag sy'n bosib. Trwy gydweithio â phartneriaid megis Consortiwm Canolbarth y De a Phartneriaeth rhanbarthol iechyd Meddwl Gyda'l Gilydd rydym yn datblygu nifer o strategaethau i gefnogi plant, pobl ifanc a'u teuluoedd i ddatblygu eu gwytnwch.

Er mwyn annog mwy o ddisgyblion i gymryd rhan mewn ymarfer corff rydym yn darparu rhaglenni hyfforddi i athrawon i ddatblygu eu hyder a'u sgiliau er mwyn iddynt llunio, gweithredu a chyflawni darpariaeth addysg gorfforol. Y nod yw cynnal gwersi addysg gorfforol cyffrous ac ymgysylltiol y bydd disgyblion am gymryd ynddynt tra'n cefnogi athrawon i'w cyflawni yn effeithlon yn yr ysgolion.

Rydym am hyrwyddo ymagwedd gynhwysol i ymarfer corff. Er mwyn ein helpu cyflawni hyn rydym yn lleadaenu Rhaglen Addysg Chwaraeon sy'n anelu cefnogi ysgolion i ddatblygu amgylchedd gynhwysol drwy sicrhau bod disgyblion ag anabledd yn cael cyfle i fod yn fwy heini.

Coridorau Bywyd Gwyllt

Mae Coridorau Bywyd Gwyllt yn chwarae rol pwysig yn helpu lleihau effaith llygredd a hyrwyddo cynefinoedd bio amrywiaeth, tra, ar yr un pryd, yn darparu buddion positif iechyd a lles i unigolion a chymunedau.

Gweithiwn i gynyddu nifer y coridorau bywyd gwyllt drwy'r Fwrdeistref Sirol a fydd yn cysylltu cynefinoedd a helpu gwarchod bywyd gwyllt ynghanol amgylchedd drefol ddatblygiedig. Bydd sefydlu coridorau cynefinoedd ychwanegol o fuddil bobl drwy helpu amsugno llygredd yn yr amgylchedd sydd ag effaith negyddol ar iechyd.

Hau Blodau Gwyllt

Mae mwy na 97% o ddolydd hynafol blodau gwyllt y DU wedi eu colli ers y 1930au. Yn sgil y golled hon, daeth cynefinoedd llain ymyl ffordd i fod yn adnodd pwysig ar gyfer amrywiaeth o fywyd gwyllt gan gynnwys gwenyn, ieir bach yr haf, ystlumod ac adar.

Mae cadwraeth a rheoli'r lleiniau ymyl ffordd hyn ledled y Fwrdeistref Sirol yn flaenoriaeth allweddol. Rydym yn gweithio gydag amrywiaeth o randdeiliaid i sicrhau y gallwn adfer ac ehangu cynefinoedd ar hyd ein rhwydweithiau ffyrdd sy'n gyfoeth o flodau. Ble y bo'n bosibl, byddwn yn atal toriad cyntaf llain ymyl ffordd laswelltog y tir isel i alluogi planhigion i gwblhau eu cylched bywyd, gan dyfu, blodeuo a mynd i had. Bydd hyn yn gwella bioamrywiaeth lleiniau ymyl ffordd gan helpu i ddiogelu dyfodol hir dymor bywyd gwyllt.

Gwastraff Gwli

Mae tua un filiwn tunnelli o ysgubiadau ffordd a gwastraff gwli yn diweddu mewn tirlenwi yn y DU, yn ychwanegol, gall gwli wedi tagu gyfrannu at y perygl o lifogydd. Mae yna opsiynau sydd ar gael i ni y gallwn eu defnyddio i atal y problemau hyn rhag digwydd mewn ffordd sy'n lleihau'r effaith ar yr amgylchedd.

Wrth gydweithio â Chyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, byddwn yn ailgylchu ein gwli a gwastraff ysgubwr drwy ddefnyddio defnydd glanhau a system trin gwely brwyn sy'n fwy ecolegol. Mae'r gwllau brwyn yn ychwanegiad deniadol i'r amgylchedd ac maen nhw hefyd yn helpu i gael gwared ar amhurdebau o'r gwastraff, wrth i'r dŵr hidlo drwyddynt. Gadewir i weddill y gwastraff sychu a gall yna gael ei wahanu i mewn i ddeunyddiau i'w hailgylchu a'r gweddill eu cyfuno â phridd o ansawdd isel i'w werthu fel deunydd ar gyfer adeiladu.

Lleihau Chwynladdwyr

I helpu i ddiogelu yn erbyn effaith negyddol ar fioamrywiaeth rydym wedi penderfynu lleihau'r defnydd o chwynladdwyr. Wrth gydweithio â chontractwyr proffesiynol sy'n defnyddio system patent 'weed it' gan ddefnyddio sensoriaid i ddod o hyd i gloroffyl mewn planhigion, caiff y chwynladdwr ei chwistrellu ble y bo'i angen yn unig. Mae'r ymagwedd dargedig hon wedi arwain at leihad o bron i 60% yn y defnydd o chwynladdwr gan y Cyngor, gan leihau'r niwed potensial i'n hamgylchedd, cynefin a rhywogaethau.

Datblygu Ap sy'n Rhoi Gwybod am Sbwriel Cyffuriau

Rydym am wneud yn siŵr fod cymunedau'n ddiogel a bod gwagleoedd adeiledig a naturiol fel ei gilydd yn hygyrch ac yn cael eu defnyddio'n dda. I fynd i'r afael â phroblem ddynodedig o gwmpas sbwriel cyffuriau a phryderon perthnasol ynghylch diogelwch y cyhoedd, mae'r Cyngor wedi datblygu 'ap' a fyddai, i ddechrau, yn cael ei beilota gyda swyddogion/partneriaid dethol – dechreuodd y peilot hwn ym mis Tachwedd 2018.

Bu canfyddiadau'r cam prawf yn gadarnhaol: y mae wedi cefnogi'r ymgymryd â gwaith allgymorth a arweinir gan dystiolaeth gan wasanaethau camddefnyddio sylweddau fel Barod (yn flaenorol Drugaid). Yn ychwanegol, cafwyd deilliannau cadarnhaol nas rhagwelwyd gan gynnwys y gudd-wybodaeth a gasglwyd yn cael ei defnyddio fel rhan o friffiau'r Tîm Prosiect Ymgysylltu ag Ieuenctid i amlygu'r math o gyffuriau mewn ardaloedd ble mae pobl ifanc yn ymgasglu fel bod gweithwyr ieuenctid yn ymwybodol ac wedi eu paratoi'n well.

Ers ei ledaenu, cafodd yr ap ei ddatblygu ymhellach ac mae bellach yn tracio eitemau'r sawl sy'n cysgu ar y stryd (fel dillad gwely a phebyll) a gafodd eu canfod yn ardal y sbwriel cyffuriau yr adroddwyd amdano. Mae'r wybodaeth hon yn gwella ein dealltwriaeth o'r nifer o bobl sy'n cysgu ar y stryd ac yn rhoi darlun mwy realistig i'r Cyngor am faint o bobl sy'n "ddigartref ar y stryd". Bydd prawf yr ap yn parhau tan Awst 2018 gydag adolygiad i ddigwydd bryd hynny.

Datblygu Economi'r Nos

Mae economi gyda'r hwyr a'r nos yn bwysig o ran llywio twf twristiaeth, hamdden a busnes yn ein trefi. Y mae'n cynnwys amrywiaeth eang o weithgaredd yng nghanol y dref rhwng yr oriau 5pm a 6am, gan gynnwys tafarndai, clybiau, caffis, tai bwyta, manwerthu, sinemâu, theatrau neu gyngherddau, cwrdd â ffrindiau neu fynychu digwyddiadau cymunedol. Mae cydbwysu gofynion cystadleuol datblygiad economaidd, diogelwch y cyhoedd ac ansawdd bywyd yn gofyn am weithio mewn partneriaeth effeithiol a meithrin perthynas â phreswylwyr a busnesau.

Mae sawl Canol Tref wedi profi dirywiad yn ystod y blynyddoedd diweddar. Cafodd hyn ei gydnabod gan y Cyngor a'i bartneriaid allweddol sy'n datblygu cynllun gweithredu a fydd yn canolbwyntio ar dri phrif nod craidd: llesiant (canol tref croesawgar, glân a diogel); symudiad (patrwm sicr o gyrraedd, cylchredeg ac ymadael; ac apêl (dewis bywiog o gymysgedd gyfoethog o adloniant a gweithgaredd).

Gwnaeth gweithredu cynnar sy'n gysylltiedig ag economi gyda'r hwyr/ nos ddynodi fod cynnig amrywiaeth o weithgareddau diwylliannol yn gallu denu poblogaeth fwy amrywiol i ganol trefi yn hwyrach yn ystod y noswaith, gan gynnwys teuluoedd a phobl hŷn. Fel Cyngor, ein nod yw cynnwys eraill yn natblygiad y cynllun gweithredu, gan sicrhau awgrymiadau o nifer o safbwyntiau gan gynnwys preswylwyr ac ymwelwyr â Chanol y Dref. Drwy ddefnyddio offer sydd ar gael i ni, byddwn yn gallu monitro a mesur effaith y gweithgareddau gwella yr ydym yn eu gwneud.

Hyb Cymorth Cynnar

Gyda'r golwg ar wella gwasanaethau cyfredol ymyrraeth gynnar ac ataliol ar gyfer plant bregus a'u teuluoedd; gwnaethom gyflawni adolygiad o'n Gwasanaeth Tîm o Gwmpas y Teulu sef MIA. Fel rhan o'r adolygiad hwn, gofynnwn ni i deuluoedd am eu safbwyntiau am y gwasanaeth cyfredol, derbynion ni fewnbwn oddi wrth sefydliadau partner ac ystyried 7 model gwahanol ledled Cymru. O ganlyniad i'r adolygiad a'r adborth oddi wrth deuluoedd, penderfynon ni ddatblygu Hyb Cymorth Cynnar, a gaiff ei weithredu o 2019 / 2020.

Bydd Hyb Cymorth Cynnar yn dod â staff ynghyd o wasanaethau plant a gwasanaethau ataliol a ariennir gan grant, gyda'r golwg o ddynodi angen yn gynt a chysylltu teuluoedd at gymorth cynnar. Yn y modd hwn, ein gobaith yw y bydd hyder y cyhoedd yn y gwasanaethau cymorth cynnar, a'r defnydd ohono, yn cynyddu. Gwyddom drwy ddarparu'r gwasanaeth cywir ar yr adeg gywir, y gallwn, mewn sawl achos atal problemau rhag datblygu neu waethygu. Byddwn yn gwneud yn siŵr fod Hyb Cymorth Cynnar hefyd yn gweithio i wella'r wybodaeth, cyngor a chymorth sydd ar gael i Ofalwyr Ifanc a theuluoedd a phlant ag anableddau.

14 Cynryd rhan

- 14.1 Mae nifer o ffyrdd o gymryd rhan yn y Cyngor. Un o'r prif ffyrdd o gymryd rhan yw trwy eich Cynghorydd lleol. Gallwch ddarganfod pwy yw'ch Cynghorydd lleol a sut i gysylltu â hwy trwy ymweld â [gwefan](#) y Cyngor.
- 14.2 Rydym am gynnal cyfranogiad cymunedol a pharhau i ddatblygu ein dealltwriaeth o les ym Merthyr Tudful. Rydym yn eich croesawu i rannu eich meddyliau ar les neu'ch syniadau ar sut y gallwn wella lles ym Merthyr Tudful yn wellbeing@merthyr.gov.uk.
- 14.3 Mae gan Bwyllgorau Craffu drefniadau i ganiatáu i bobl sy'n byw neu'n gweithio yn ardal yr awdurdod lleol gyflwyno sylwadau ar unrhyw fater sy'n cael ei drafod. Mae yna lawer o wahanol ffyrdd y gallech fod yn rhan o'r gwaith craffu, gan gynnwys:
- [awgrymu pwnc i'w archwilio](#);
 - [mynychu cyfarfod](#) i wrando ar y drafodaeth a'r ddadl;
 - [mynychu cyfarfod i siarad](#) ar eitem agenda; neu
 - [darparu gwybodaeth a thystiolaeth fel tyst](#), i lywio darn penodol o waith adolygu sy'n cael ei wneud gan bwyllgor craffu.
- 14.4 [Canllawiau ar siarad cyhoeddus](#) yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Craffu - mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful yn croesawu ac yn annog cyfranogiad gweithredol ei dinasyddion lle bynnag y bo'n bosibl ac mae cyfle i aelodau'r cyhoedd siarad yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Craffu ar eitem ar y rhaglen.
- 14.5 Bydd y Pwyllgorau Craffu yn ystyried ceisiadau i archwilio materion a gyflwynir gan unrhyw sector o'r cyhoedd. I fod yn gymwys, mae'n rhaid i geisiadau: effeithio ar grŵp neu gymuned o bobl; yn ymwneud â gwasanaeth, digwyddiad neu fater lle mae gan y Cyngor fudd sylweddol; peidio â bod yn fater y mae craffu wedi ei ystyried yn ystod y 12 mis diwethaf; nid mater arall y mae Pwyllgor Cyngor Bwrdeistref Sirol arall yn ymdrin â hi (e.e. materion cynllunio) heblaw lle mae'r mater yn ymwneud â phroses gwneud penderfyniadau'r Cyngor.

Gallwch hefyd ddod o hyd i ni ar:



www.facebook.com/merthyrtydfilcbc



www.twitter.com/merthyrCBC



www.youtube.com/c/MerthyrTydfilCBC



Cyngor Bwrdeistref Sirol
MERTHYR TUDFUL
MERTHYR TYDFIL
County Borough Council